# Cyngor Cymuned Llansantffraed
# Adroddiad Blynyddol Mai 2023-Ebrill 2024

.
## Trefniadaeth y Cyngor

Cyngor Cymuned Llansantffraed yw haen fwyaf lleol llywodraeth leol ar gyfer cymuned Llansantffraed ac mae'n awdurdod lleol a sefydlwyd trwy Ddeddf Llywodraeth Leol 1972.

Mae'r Cyngor yn cynnwys deg Aelod etholedig.

Yr Aelodau yn ystod y flwyddyn bwrdeistrefol 2023-24 oedd y canlynol:

Y Cynghorwyr Sheila Davies, Keith Henson, Hywel Llŷr Jenkins, Lodwick Lloyd, Dennis Morgan, Andrew Phillips, Gwenno Piette ac Aled Roberts (etholwyd yn ddiwrthwynebiad ym Mai 2022).

Y Cynghorwyr Martine Robson a Jim Rollinson (cyfetholwyd yn dilyn yr etholiad).

Mae'r Cyngor yn cyflogi Clerc a Swyddog Cyllid Cyfrifol rhan amser, Mr Denfer Morgan, sydd yn gyfrifol am weinyddiaeth y Cyngor, gan gynnwys y cyllid.

Fe fu i'r Cyngor gwrdd am 7:30yh ar nos Fawrth cyntaf y mis yn Neuadd Bentref Llanon. Fe fu'n weithgar iawn yn chwilio am leoliadau ble y gellid cwrdd gyda gofynion Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau 2021 ble y gellir mynychu cyfarfodydd drwy fod yn bresennol neu o bell.

Gellir cysylltu gyda'r Cyngor drwy gysylltu â'r Clerc trwy anfon e-bost at clerc.llansantffraed@btinternet.com neu drwy ffonio 07749 320915.

Gwefan y Cyngor yw Hafan / Home - Llansantffraed Community Council

Mae'r gwybodaeth a ddarperir ar y wefan yn cynnwys:

- Manylion cyswllt
- Manylion y Cynghorwyr
- Calendr cyfarfodydd ac agenda a chofnodion
- Gwybodaeth ariannol
- Polisïau

## Tir Hamdden a Mwynder

Mae'r Cyngor yn berchen ar dri darn o dir ym mhentrefi Llanon a Llansantffraed a ddarperir at bwrpasau mwyniant a hamdden, sef:

- Y llain a'r gysgodfa yn Llansantffraed
- Lle chwarae'r plant yn Llansantffraed
- Y cwrt tenis a'r man chwarae aml-ddefnydd ar y Waun, Llanon

## Gwasanaethau

Mae'r gwasanaethau a ddarperir gan y Cyngor yn cynnwys:

- cadw llwybrau troed yn glir drwy drasho cyson gan gontractwr
- cyfrannu tuag at gost torri porfa ar y cae chwarae
- darparu sesiynau chwarae gan Ray Ceredigion i blant yn ystod gwyliau'r haf
- gwneud cyfraniadau ariannol i gyrff lleol a Neuadd Bentref Llanon

## Cloncan

Y mae'r Cyngor yn cynhyrchu cylchlythyr cymunedol o'r enw Cloncan sy'n cael ei olygu gan y Cynghorwyr Sheila Davies a Gwenno Piette.

## Cyllid

Mae'r Cyngor yn gosod Cyllideb Blynyddol ym mis Ionawr sy'n amlinellu'r gwariant arfaethedig ar gyfer y flwyddyn ariannol ddilynol ar gyfer y gwasanaethau y bwriedir eu darparu a'r prosiectau y bwriedir eu cyflwyno yn ystod y flwyddyn. Ariennir y gwariant yma yn ei dro drwy braesept a osodir yn yr un cyfarfod. Mae'r praesept yn ei dro yn rhan o Dreth y Cyngor a delir gan bob annedd o fewn y Gymuned. Defnyddir ffynonellau incwm eraill ynghyd ag arian wrth gefn.

Dyma gyllideb y Cyngor am 2023-24, a osodwyd yn y cyfarfod ar 3ydd Ionawr 2023:

### Gwariant

£43,960

### Incwm

Praesept: £28,000
Grant Cymunedol: £7,500
Arian wrth-gefn: £8,460

### Treth Gyngor

Cymeradwy-wyd Treth Gyngor o £38.85 ar gyfer eiddo Band D er mwyn creu'r Praesept.

### Cyfrifon Blynyddol

Y Cyfrifon Blynyddol diweddaraf i'w harchwilio gan Archwilio Cymru yw'r rhai ar gyfer y flwyddyn ariannol flaenorol - 2021-22. Derbyniodd y Cyngor 'adroddiad diamod' heb faterion i'w nodi.

Gellir gweld manylion pellach ar wefan y Cyngor.

## Materion Cymunedol

### Cynrychioli'r Gymuned

Cyngor Sir Ceredigion yw'r awdurdod addysg leol, awdurdod priffyrdd lleol, awdurdod cynllunio lleol a hefyd yn gyfrifol am wasanaethau cymdeithasol y Sir. Ymgynghorir y Cyngor gan Gyngor Sir Ceredigion ar ambell fater.

Mae'r Cyngor Cymuned wedi gwneud cynrychiolaethau ar y canlynol yn ystod y flwyddyn:

- Ceisiadau cynllunio
- Creu llwybrau troed a gwyriadau.

Denfer Morgan
Clerc y Cyngor
Rhagfyr 2024